Blaenau Ffestiniog
o'r graig
from the rock

DIWYLLIANT YMYSG DIWYDIANT:

DATHLU TREFTADAETH BLAENAU ARY STRYD

CULTURE AMIDST INDUSTRY:

CELEBRATING BLAENAU'S HERITAGE ON THE STREET

DIWYLLIANT YMYSG DIWYDIANT;
DATHLU TREFTADAETH BLAENAU

Mae gan Blaenau Ffestiniog hanes deinamig a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw, diolch i ddatblygiad dramatig ei chwareli llechi ynghanol tirwedd mwyaf trawiadol cefn gwlad Meirionnydd. O'i chyfoeth o dermau chwarelyddol, i lond bro o feirdd, llenorion a cherddorion, esgorodd creadigedd yr ardal ar dreftadaeth ddiwylliannol unigryw ac amhrisiadwy. Yn gyfuniad o'r traddodiadol a chyfoes, y gwledig a'r diwydiannol, cynhyrchodd y dreftadaeth hynod, a chwbl Gymreig, hon rai o ddywediadau ac ymadroddion mwyaf lliwgar ac unigryw yr iaith Gymraeg.

I gyfleu y cyfoeth diwylliannol hwn, casglwyd cannoedd o ddywediadau lleol a thermau chwarelyddol unigryw, cyfeiriadau hanesyddol, a dyfyniadau gan artistiaid yr ardal, gan ddewis detholiad ohonynt i'w cynnwys ar y bandiau llechi a welir o amgylch y stryd fawr. Cynhwyswyd hefyd ddywediadau cyfoes gan drigolion lleol, ac ymadroddion a grewyd mewn gweithdai gyda disgyblion ysgolion y plwy, er mwyn adlewyrchu hunaniaeth cyfoes y dref, yn ogystal â gobaith a dyheadau'r gymuned ar gyfer y dyfodol.

Yn ddathliad o ddiwylliant lliwgar y Blaenau, mae'r dywediadau wedi eu rhifo er mwyn eich annog i gerdded y stryd tra'n dysgu am y dreftadaeth unigryw hon. A thra'r ydych wrthi, be am daro i mewn i siopau a busnesau'r dref i weld be arall sydd gennym i'w gynnig. Chewch chi ddim eich siomi.

CULTURE AMIDST INDUSTRY;
CELEBRATING BLAENAU'S HERITAGE

Blaenau Ffestiniog has a dynamic history and an unique cultural identity, owing to the town's dramatic industrial development in the most striking countryside in rural Meirionnydd. From a wealth of original quarry terms to a host of poets, writers and musicians, Blaenau's creativity produced a priceless cultural heritage. A combination of the traditional and modern, the rural and industrial, this vibrant and distinctively Welsh heritage produced some of the most unique and colourful phrases in the Welsh language.

To reflect this rich heritage, hundreds of local sayings, unique quarry terms, historical references, and quotations from local artists were chosen for inclusion on the slate bands that are seen on the town's streets. Also included are contemporary sayings, as well as phrases created in workshops held with pupils of the local schools, reflecting current cultural identity as well as the community's hopes and dreams for the future.

A celebration of Blaenau's colourful culture, the phrases have been numbered to encourage you to walk the town's high street as you learn of this vibrant and unique heritage. And while you're at it, pop in to the town's shops and businesses to see what else we have on offer. You won't be disappointed.

1

RHOI'R CERRIG I FYNY

Dywediad am ymddeol o'r chwarel, gyda'i wreiddiau yn y term am arferiad y chwarelwr o roi cyfrif o'r llechi a gynhyrchodd ar ddiwedd pob mis.

TO GIVE UP THE STONES

Saying for retiring from the quarry, derived from the quarryman's custom of giving an account of slates produced at the end of each month.

2

TRAWIADOL!

Yn y gweithdai yn yr ysgolion gofynnwyd am ansoddeiriau i ddisgrifio Blaenau. Cafwyd hwn gan ddisgyblion Ysgol y Moelwyn, yn cyfleu yr argraff a gaiff tirwedd a thomenni llechi'r dref ar yr ymwelydd, yr arfer o 'daro bargen' yn y chwareli, a'r holl waith taro oedd yn digwydd ynddynt.

STUNNING! / STRIKING!

Asked for words to describe Blaenau, Ysgol y Moelwyn pupils gave us 'trawiadol,' which is Welsh for something that is striking in beauty or power. The word 'taro' (to strike) has further resonance due to the custom of 'taro bargen' (to strike a bargain) between rockmen, quarrymen and bosses – and all the work that involved the striking of tools.

2+

CLINCAR!

Un o eiriau llafar unigryw'r ardal. Mae'n golygu rhywbeth arbennig o dda, e.e. 'clincar o noson!'

GREAT STUFF! / A CRACKER!

One of many words unique to the area, describing something that's very good, such as 'a cracking night!'

3

TYWYDD HEN FFASIWN HEDDIW!

Dywediad lleol am ddiwrnod glawog ofnadwy.

OLD FASHIONED WEATHER TODAY!

Local saying for a very rainy day.

GWYNAB FEL MIS PUMP

Dywediad ddaeth o'r chwarel, yn cyfeirio at rywun efo gwyneb hir, yn flin neu yn pwdu. Pob 4 neu 5 mlynedd mae yna un mis sy'n cynnwys pum wythnos. Yn y chwarel, golygai hynny aros pum wythnos am gyflog.

FACE LIKE A MONTH OF FIVE

A saying from the quarries, referring to someone with a long face (gloomy or in a foul mood). Every 4 or 5 years, one month will have five weeks in it. In the quarry, this meant waiting five weeks for pay day.

03
05
07
09
11
13
15
17
19
21
23
25
27
29
31
33
35
37
39
41
43
45
47
49
51
53
55
57
59
61
63
65

3+

IÂR DAN BADALL

Dywediad traddodiadol lleol am rywun sy'n edrych yn llipa neu ddifywyd. Cyfrannwyd gan blant Ysgol Bro Cynfal.

CHICKEN UNDER A FRYING PAN

A traditional local reference to someone who looks listless, weak or floppy. Contributed by Ysgol Bro Cynfal children.

4

SIARAD FEL INJIAN HOGI

Dywediad o fyd y chwarel am rywun sy'n siarad pymtheg yn y dwsin

TALKING LIKE A SLATE-SAW SHARPENING MACHINE

A quarry saying, describing someone who talks non-stop.

TOMENNI YDI'N CESTYLL NI

Gan blant Ysgol y Moelwyn. Mae gan rai trefi eu cestyll. Mae gennym ni ein tomenni, yn llawn cystal cofeb i wrhydri'r oesau a fu.

THE SLATE TIPS ARE OUR CASTLES

From Ysgol y Moelwyn pupils. Some towns have their castles, but our slate tips are also a testament to an epic past.

4+

GEFAIL DDOE, GOFAL HEDDIW

Llinell o waith y bardd lleol Gwilym Price, yn son am adfer hen efail yn Nhanygrisiau.

A SMITHY YESTERDAY, CARE TODAY

Line from local poet Gwilym Price, referring to restoring an old smithy in Tanygrisiau.

5

FY ENWWEDI'I GRAFU EFO HOELEN WEDI RHYDU

Cyfeiriad at linell gyfarwydd o gân Mim Twm Llai, 'Cwmorthin.' Gyda'i dawelwch hudolus, ei brydferthwch trawiadol ac olion diwydiannol dramatig, mae gan Cwmorthin le arbennig iawn yng nghalonnau trigolion yr ardal hon.

MY NAME IS SCRATCHED WITH A RUSTY NAIL

A quote from the beautiful song 'Cwmorthin' by Mim Twm Llai. With its peace and quiet, dramatic beauty and haunting industrial ruins, it holds a special place in the hearts of local people.

GLAW. MI DDAW FEL Y MYNN

Llinell o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd o Danygrisiau, yr Athro Gwyn Thomas.

RAIN. IT COMES WHEN IT WANTS.

Famous line from the poem 'Blaenau' by Tanygrisiau poet, Prof. Gwyn Thomas.

03
05
07
09
11
13
15
17
19
21
23
25
27
29
31
33
35
37
39
41
43
45
47
49
51
53
55
57
59
61
63
65

5+



FEL WAGAN GYNTA'R RŶN

Dywediad lleol wedi tarddu o'r chwarel, yn golygu rhywun hŷ ac ymwthgar – 'mor ddigwilydd â wagan gynta'r rŷn .'

LIKE THE FIRST WAGON OF THE RUN

With its origin in the quarries, a local saying for a pushy or brazen person.

6

ASGWRN CEFN GWLAD

Chwarae ar eiriau gan ddisgyblion Ysgol y Moelwyn. Mae siap tref y Blaenau fel asgwrn cefn yn cynnal cefn gwlad y fro o'i chwmpas, ac oherwydd i'r dref roi to ar dai y wlad mae hi hefyd yn cynnal Cymru gyfan.

THE BACKBONE OF THE COUNTRY

Clever play on words by Ysgol y Moelwyn pupils describing the town as the spine of the surrounding countryside.

7

CELFRYDOL

Cyfuniad o'r geiriau 'celf' a 'delfrydol' gan blant gweithdy Ysgol y Moelwyn.

ART / IDEAL

Ysgol y Moelwyn pupils describing the town again, this time by combining the words 'celf' (art) with 'delfrydol' (ideal).

7+

LLECHAN YN Y GWAED

Cynigiwyd gan sawl aelod o'r gymuned a gweithdai yr ysgolion, wedi ei ysbrydoli gan linell yn y gân 'Graffiti Cymraeg' gan Anweledig.

SLATE IN THE BLOOD

Chosen by many people, and in all workshops held in the schools, inspired by a line in Anweledig's song 'Graffiti Cymraeg.'

8

LLECHAN LÂN

Dechrau newydd i Blaenau, medd plant Ysgol y Moelwyn.

A CLEAN SLATE

A new beginning for Blaenau, say the children of Ysgol y Moelwyn.

BLAENAU AM BYTH!

Gan Ysgol y Moelwyn, yn benthyg oddi ar 'Cymru am Byth.'

BLAENAU FOR EVER!

From Ysgol y Moelwyn, borrowing from the Welsh saying 'Cymru am byth' (Wales for ever).

03
05
07
09
11
13
15
17
19
21
23
25
27
29
31
33
35
37
39
41
43
45
47
49
51
53
55
57
59
61
63
65

9

PLU STINIOG

Gyda dwsinau o lynnoedd yn llechu ym mryniau'r ardal mae pysgota yn boblogaidd tu hwnt yn yr ardal. Sefydlwyd Cymdeithas Enweiriawl y Cambrian yn 1885. Casglodd y pysgotwr, awdur a hanesydd lleol, y diweddar Emrys Evans, batrymau 133 o blu pysgota unigryw yr ardal ar gyfer y gyfrol 'Plu Stiniog.'

THE FISHING FLIES OF FFESTINIOG

With dozens of lakes lying in the surrounding hills, trout fishing is a popular pastime in the area. The Cambrian Angling Society was founded in 1885. The late Emrys Evans, a local author, historian and keen angler, collected 133 patterns of traditional local fishing flies for his book 'Plu Stiniog.'

EGARYCH CLUST SGWARNOG

Engraifft o'r enwau lliwgar ar blu pysgota'r ardal a gasglwyd yng nghyfrol y diweddar Emrys Evans, 'Plu Stiniog.'

HARE'S EAR SEDGE

An example of the unique, colourful names of local fishing flies collected by the late Emrys Evans in 'Plu Stiniog.'

10

BRAF O HYD YM MLAENAU FFESTINIOG

Ateb pobl Blaenau i honiadau traddodiadol ei bod o hyd yn bwrw glaw yma. Yn ddewis poblogaidd gan oedolion a phlant yr ysgolion, daw'r dyfyniad o gân Anweledig, 'Dawns y Glaw.'

ALWAYS SUNNY IN BLAENAU FFESTINIOG

Blaenau people's answer to traditional claims that it's always raining here. A popular choice among adults and schoolchildren, it is a quote from Anweledig's popular anthem 'Dawns y Glaw' (Raindance).

11

Y COED LLUSYN CADW'U LLIW

Mae'r Manodau yn frith o goed llus, ac mae hel llus yn arferiad cyffredin yn yr haf. Dyma linell o gynghanedd yn cyfleu fod hyn yn dal i fod er gwaethaf newidiadau'r oes.

THE BILBERRY BUSHES KEEP THEIR COLOUR

Gathering bilberries is a popular pastime here in summer. This line of cynghanedd notes that despite changing times, some things never change.

03
05
07
09
11
13
15
17
19
21
23
25
27
29
31
33
35
37
39
41
43
45
47
49
51
53
55
57
59
61
63
65

11+

12

GLESNI

Gair i ddisgrifio'r dref a'r ardal gan ddisgyblion Ysgol y Moelwyn. Mae'n cyfeirio at lesni'r llechi, y mynyddoedd, llynnoedd ac awyr, ac ysbryd y gymuned.

BLUENESS / GREEN-NESS / FRESHNESS

'Glesni' means blueness, green-ness and freshness in Welsh. The word was put forward by Ysgol y Moelwyn pupils as a catch-all description of the town and surrounding area, from the blue slate, lakes and skies, to the green mountains and valleys, and the freshness of the people's spirit.

BWM BWM BWM, CEFFYL ROBIN TWM

Ffordd unigryw W.R. Jones, arweinydd Seindorf Gwaenydd (Seindorf Arian yr Oakeley heddiw) o gael y band i gadw amser oedd adrodd rhigymau fel hwn! Ar gyfer yr hanner curiad, byddai'n adrodd "Tŷ popty, tŷ popty, tŷ popty..."!

BOOM BOOM BOOM, ROBIN TWM'S HORSE

W.R. Jones, conductor of Seindorf Gwaenydd (today's Oakeley Silver Band) had unique ways of getting the band to keep time – reciting rythmic rhymes such as this one for the full beat! For the half-beat he would use "Tŷ popty, tŷ popty!" ("Oven house, oven house!")

12+

MWRLLWCH

Gair lleol am law mân, neu gymysgedd annymunol o law, niwl, mwg a thywyllwch.

MWRLLWCH

A local word for a miserable mixture of drizzle, fog, smoke and darkness.

SAFON, GYFAILL!

Ffordd gyfoes o fynegi canmoliaeth.

SHOT, MATE!

Literally, "Standard, mate!" A contemporary compliment.

13

STRYD Y BLAENAU'N LLAWN WYNEBAU...

Dyfyniad o 'Mari Wyn' – nofel yr awdur lleol, Sara Ashton

BLAENAU'S STREET FULL OF FACES

Quote from 'Mari Wyn' – a novel by local author Sara Ashton.

PAWB YN NABOD PAWB

Mae pawb yn nabod pawb yn y gymuned agos hon. Daw'r dyfyniad o un o ganeuon y band lleol Gwibdaith Hen Fran, gan y cerddor o Danygrisiau, Phil Lee Jones.

EVERYBODY KNOWS EVERYBODY

Everyone knows everyone in this close-knit community, and this quote is from a song by local band Gwibdaith Hen Fran, written by Tanygrisiau musician Phil Lee Jones.

03 05 07 09 11 13 15 17 19 21 23 25 27 29 31 33 35 37 39 41 43 45 47 49 51 53 55 57 59 61 63 65

14

ROEDD NOW'R ALLTYN DALLTY DŴR

Llinell o englyn yn cyfeirio at ddoniau pysgota Now'r Allt (Owen Jones), cymeriad lliwgar ac adnabyddus o'r ardal yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf

NOW'R ALLT KNEW THE WATER

A line of cynghanedd referring to the notorious fishing skills of Now'r Allt (Owen Jones), a legendary local character from the early 20th century.

15

MAE SEREN YN DISGLEIRIO

Gan blant Ysgol Tanygrisiau, yn cyfeirio at waith Cwmni Seren, sy'n darparu cyflogaeth i bobl gydag anhawsterau dysgu.

A STAR IS SHINING

From Ysgol Tanygrisiau children, referring to Cwmni Seren's work providing opportunities to persons with learning difficulties.

16

AMSER DYN YW EI GYNHYSGAETH

Arwyddair Ysgol y Moelwyn, ysgol uwchradd y dref.

A MAN'S TIME IS HIS FORTUNE

School motto of Ysgol y Moelwyn, the town's secondary school.

17

DIM SYRTHIO DROS DYFN!

Un o'r damweiniau yn y chwarel a fyddai'n sicr o farwolaeth oedd 'disgyn dros dyfn' – disgyn dros ymyl un o'r agorydd o dan ddaear. Yn y dywediad 'dim syrthio dros dyfn' rydym yn datgan fod y gymuned hon, er gwaethaf blynyddoedd o ddirywiad, yn gwrthod marw.

NO FALLING OVER THE 'DEEP'!

A quarry accident that rarely resulted in anything less than a fatality was falling over the 'deep' – going over the edge of an underground chamber. The saying is used here to state that Blaenau, despite years of industrial and social decline, refuses to die.

18

TRE'R BEDOL

Cân y band lleol Twmffat, yn cyfeirio at siap pedol tref y Blaenau, o'r Manod i Danygrisiau.

HORSESHOE TOWN

Song by local band Twmffat referring to Blaenau's horseshoe shape, from Manod to Tanygrisiau.

19

SŴN LLECHI'N CRAFU'R NOS

Llinell o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd o Danygrisiau, yr Athro Gwyn Thomas, yn cyfeirio at y synnau bychain a wna tomen fawr yr Oclis wrth i'r llechi symud yn y nos.

THE SOUND OF SLATE SCRAPING THE NIGHT

Line from the poem 'Blaenau' by Tanygrisiau poet Prof. Gwyn Thomas referring to the sounds made by the Oakeley slate tip as the rubble moves during the night.

20

BRO LLEU, BRO CREU, BRO CRAWIA

Llinell o gynghanedd o'r gweithdy gyda phlant Ysgol Bro Cynfal. Dyma fro Lleu Llaw Gyffes o'r Mabinogi, bro creadigedd (diwydiant a diwylliant), a bro'r crawiau.

LAND OF LLEU, LAND OF CREATIVITY, LAND OF SLATE

A line of cynghanedd with Ysgol Bro Cynfal pupils. Refers to the area as the setting for the legend of Lleu Llaw Gyffes and Blodeuwedd in the Mabinogion, the area's industrial and cultural creativity, and its trademark 'crawiau' slate slabs.

HWRE I FERCHED YR HALL!

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf sefydlwyd ffatri gweu sanau ar gyfer y fyddin yn Neuadd y Farchnad (Yr Hall), ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu yno ffatri didoli a thrwsio esgidiau milwyr. Merched a weithiai yn y ffatrioedd hyn, ac fe'i gelwid yn "Ferched yr Hall."

HURRAH FOR THE GIRLS OF THE HALL!

During the First World War a factory was established in the Market Hall making socks for the soldiers. Later, during the Second World War a factory was set up to sort and repair used army boots. The workers at these factories were women from the town, and were called "Merched yr Hall."

21

CROESO I'R OCHOR DRAW

Cyn i Gors Mynach (Cors Glanypwll) gael ei sychu a'i llenwi efo rwbel chwarel, 'yr ochor draw' oedd enw trigolion Rhiwbryfdir a Glanypwll am ran ganolog y dref, a orweddai ar ochr arall y gors.

WELCOME TO THE OTHER SIDE / FAR SIDE

'Yr ochor draw' was what the residents of Rhiwbryfdir and Glanypwll called the central part of the town before the Cors Mynach (Cors Glanypwll) swamp was drained and filled with quarry waste.

22

Y GLORIAN

Enw un o bapurau newydd amlycaf y Blaenau. Fe'i argraffwyd yma, yn hen Siop y Glorian, rhwng tua 1899 a 1916.

Y GLORIAN (The Scales)

Many newspapers were published in Blaenau. 'Y Glorian' was among the most noteable, and was printed here in the old 'Siop y Glorian' from 1899 to 1916.

23

MAE'R PYSGOD YN CAPAL

Dywediad ymysg pysgotwyr yr ardal pan nad yw'r pysgod yn 'symud' (ddim yn codi, chwarae na chynnig), ac wedi mynd i orweddian i waelod y llyn!

THE FISH ARE IN CHAPEL

A saying among local anglers, referring to when the fish aren't moving (rising, playing or biting) and have gone for a lie-down at the bottom of the lake!

24

TREF SY'N TARO TANT

Llinell o'r gweithdy efo plant Ysgol Bro Cynfal, yn chwarae ar yr hen ddywediad Cymraeg 'taro tant' a chyfeirio at draddodiad cerddorol y dref, a'r sŵn taro oedd fel trac sain i'r dydd yn y chwarel.

THE TOWN THAT STRIKES A CHORD

From the workshop with Ysgol Bro Cynfal children, referring to the traditional Welsh saying 'taro tant' (literally striking a string on a harp), the strong musical tradition of the town, and the sound of striking tools being the soundtrack to quarry life.

25

Y FRO YNG NGHESEILIAU'R MOELWYN - NYTARS YN NEIDIO I LLYN CŴN

Thema gyson gan blant gweithdai Ysgol y Moelwyn oedd fod y Moelwyn fel pe tai'n estyn ei freichiau i ddiogelu'r ardal yn ei gôl. Ceseiliau Moelwyn yw'r enw ar y fraich greigiog sy'n estyn o'r Moelwyn Mawr at Foel yr Hydd, gan gynnwys Craig Stwlan, Clogwyn y Bustach a Chlogwyn yr Oen. Mae'r llinell yn cyfleu cadernid gwarchodol a chartrefol y Moelwyn.

THE TOWN IN THE BOSOM OF THE MOELWYN

A recurring theme with Ysgol y Moelwyn pupils was a sense that the Moelwyn seemed to be protecting the community in it's bosom. Ceseiliau Moelwyn is the name of the rocky ridge that extends between Moelwyn Mawr and Moel yr Hydd (including Craig Stwlan, Clogwyn y Bustach and Clogwyn yr Oen) like a homely, protective arm.

25+

NYTARS YN NEIDIO I LLYN CŴN

Cyfeiriad at linell o 'Tafarn yn Nolrhedyn' – cân boblogaidd Mim Twm Llai, grŵp y cerddor lleol Gai Toms – sy'n disgrifio arferiad dewrion ifanc o neidio oddi ar y graig i bwll Llyn Cŵn yn yr afon islaw Cwmorthin.

NUTTERS JUMPING INTO LLYN CŴN

Reference to a line in a popular song by renowned Tanygrisiau singer-songwriter Gai Toms, with his band Mim Twm Llai, describing daring local youths jumping from the rocks into Llyn Cŵn (dog lake) – a pool in the river below Cwmorthin.

YMA O HYD!

Cân anthemaidd Dafydd Iwan. O ystyried hunaniaeth Gymreig cryf pobl Stiniog, a bod hanes y gymuned yn un o fod "yma o hyd er gwaethaf pawb a phopeth," nid yw'n syndod fod disgyblion Ysgol y Moelwyn wedi dewis y geiriau hyn.

STILL HERE!

Sung by Welsh folk singer Dafydd Iwan, 'Yma o Hyd' is an anthemic song about the Welsh nation and language surviving against the odds. Considering the strong Welsh identity of Blaenau people, and the town's survival against the odds, it's no surprise to see Ysgol y Moelwyn pupils chosing these words

26

BLAENAU ROC A RÔL

O'r gweithdy yn Ysgol Maenofferen, yn chwarae ar gân Edward H Dafis, 'Breuddwyd Roc a Rôl,' wrth gyfeirio at ran flaenllaw Blaenau yng nghanu pop Cymraeg.

ROCK N ROLL BLAENAU

From workshop with children of Ysgol Maenofferen, playing on the title of the famous Edward H Dafis song 'Breuddwyd Roc a Rôl' (Rock n Roll Dream) whilst highlighting Blaenau's role in Welsh pop music.

27

ROWND Y BEDLAN

Dywediad lleol am rywun neu rywbeth sydd byth yn stopio, e.e. "siarad rownd y bedlan."

ON AND ON AND ON (Constantly, non-stop)

Local saying for someone or something that never stops, e.g. "he talks all the time."

CYMOWTA

Gair lleol am droi o gwmpas yn gwneud fawr o ddim byd, "fel rhyw gi yn cymowta."

MOOCHING AROUND

A local word for sniffing around while going nowhere – much like a dog does.

28

EIN LLYNNAU GLEISION LLONYDD

Benthyg llinell enwog Gwilym Cowlyd, 'Y llynnau gwyrddion llonydd' – sy'n cyfeirio at lynnoedd ardal Dyffryn Conwy – a'i newid, gyda thafod yn y boch, i gyfleu ein llynnau gleision ni.

OUR STILL, BLUE LAKES

Paraphrasing a line of Gwilym Cowlyd's poetry describing 'the green, still lakes' of the Conwy valley hills, to describe the 'blue, still lakes of Ffestiniog.'

29

Y MOELWYN YN GWISGO'I GAP

'Mae'r Moelwyn yn gwisgo'i gap, does fawr o hap am dywydd.' Coel tywydd traddodiadol yn yr ardal. Mi ddaw i fwrw glaw os oes cwmwl ar gopa'r Moelwyn.

THE MOELWYN IS WEARING ITS CAP

A traditional sign of rain locally is cloud covering the Moelwyn's summit.

30

ATGOFION MELYS, YFORY GWELL

O'r gweithdy gyda phlant Ysgol Maenofferen.

SWEET MEMORIES AND A BETTER TOMORROW

From the workshop with Ysgol Maenofferen children.

31&32

LLECHAN LASYW'R....GARREG AELWYD

Bro'r lechan las yw ein cartref.

BLUE SLATE IS.....THE HEARTHSTONE

The 'aelwyd' is Welsh for the part of the home where the family gathers around the fireplace. Hearthstones are commonly made of slate. Our collective hearthstone is the blue slate of our area.

33

PAWB ARYR UN LEFAL

Mae pawb yn gyfartal yn y Blaenau. Dywediad addas gan mai 'lefal' yw'r gair am dwnel chwarel.

WE'RE ALL ON THE SAME LEVEL

All are equal in Blaenau. An apt saying, as a 'level' is also a quarry tunnel.

34

LOBSGOWS TROEDNOETH

Enw traddodiadol pobl Blaenau am lobsgows heb lawer o gig.

BAREFOOT BROTH

Local name for lobsgows (cawl, broth, scouse, hotpot) with hardly any meat in it.

35

NOS SADWRN BACH A WYTHNOS TÂL MAWR

'Nos Sadwrn Bach' oedd yr enw ar nos Fercher, ac Wythnos Tâl Mawr oedd adeg Pen Cyfri, pan delid y cyflog mawr unwaith y mis.

LITTLE SATURDAY NIGHT AND BIG PAY WEEK

Wednesday evening was called 'Nos Sadwrn Bach' (Little Saturday Night). 'Wythnos Tâl Mawr' (Big Pay Week) was the monthly payment of the larger part of the quarryman's pay.

36

Y GWYNT O DWLLY GLAW

Dywediad tywydd. Mi ddaw i fwrw pan fo'r gwynt o 'dwll y glaw' – Bwlch Stwlan, rhwng y Moelwyn Mawr a'r Moelwyn Bach.

THE WIND FROM THE RAIN HOLE

Another local weather saying. If the wind comes from the 'rain hole' (between Moelwyn Mawr and Moelwyn Bach) it will bring the rain with it.

HEM WEN CRICIATH

Dywediad tywydd o Danygrisiau yn disgrifio cymylau ffrynt tywydd yn dynesu o'r gorllewin.

CRICCIETH'S WHITE HEM

A Tanygrisiau saying, describing an incoming weather front as the hem of a frock closing from the west (over Criccieth).

36+

SOMBRERROS YN Y GLAW

Teitl albwm gyntaf y grŵp enwog, lleol Anweledig. Mae'n cyfleu ysbryd pobl Stiniog i'r dim – os ydi'n bwrw, mi awn allan i gael ffiesta beth bynnag!

SOMBRERROS IN THE RAIN

Title of first album by succesful local rock/reggae/funk band Anweledig, which typifies the spirit of Blaenau people – if it rains, we'll still have a fiesta!

FFLIO MYND!

Disgrifiad lleol o rywbeth sy'n symud yn sydyn, tafarn brysur neu ddigwyddiad poblogaidd. "Mae hi'n fflio mynd yma!" Hefyd yn deitl cân gan Llwybr Llaethog, grŵp dub/tecno dylanwadol o'r ardal.

FLYING ALONG!

Something that's moving very fast, or a busy pub or event. Also a song by influential Welsh dub/techno stalwarts Llwybr Llaethog, who hail from the area.

37

BREICHLED O DREF AR ASGWRNY GRAIG

Llinell enwog o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd ac academydd o Danygrisiau, yr Athro Gwyn Thomas, yn disgrifio'r dref i'r dim.

A TOWN LIKE A BRACELET ON THE BONE OF THE ROCK

Famous line from the poem 'Blaenau' by renowned poet and academic, Prof Gwyn Thomas from Tanygrisiau, perfectly describing the town.

37+

YR HAUL YN MELYSU'R MYNYDD

O linell yn y gân 'Llwybrau' gan y band o Danygrisiau, Estella

THE SUN SWEETENS THE MOUNTAIN

From a line in the song 'Llwybrau' (Paths) by Tanygrisiau band, Estella

38

DEFAID SGEN YR HAWLIA YN FAMA

Llinell o'r gân 'Dawns y Glaw' gan Anweledig. Cynigiwyd gan blant Ysgol y Moelwyn. Golygfa gyffredin yn y Blaenau oedd defaid yn crwydro'r stryd. Y gred oedd mai'r defaid, nid y traffig, oedd â hawl cyfreithlon i'r ffordd fawr.

SHEEP HAVE THE RIGHTS AROUND HERE

A line from Anweledig song 'Dawns y Glaw' (Raindance), contributed by Ysgol y Moelwyn pupils. A common sight in Blaenau was sheep wandering the streets. It was said that the sheep, not the traffic, had the legal right of way.

39

GWERTHU FEL SLECS

Dweud lleol am rywbeth yn gwerthu'n sydyn, yn cyfeirio o bosib at y ffordd oedd slecs glo tân y noson gynt yn tanio'n sydyn.

SELLING LIKE 'SLECS' (i.e. selling like hotcakes)

Local phrase. 'Slecs' is the word for half-burnt coal that burns rapidly when re-lit.

40

DILYN Y CRAWIA AM ADRA

Gwyneb wedi ei hollti o ddarn o lechfaen heb ei lifio ydi crawan. Mae ffensys crawia yn nodwedd o ardaloedd y llechi, yn arwydd fod rhywun yn nesu am adra.

FOLLOWING THE CRAWIA HOME

'Crawia' refers to rough slate slabs split from the face of large lumps of waste rock. Fences made of crawia are a unique feature of slate quarrying areas.

41

TRECH GWLAD NAG ARGLWYDD!

Slogan traddodiadol y werin mewn anghydfod â thirfeddianwyr. Defnyddiwyd mewn anghytundeb rhwng y gweithwyr a pherchnogion cynnar chwareli'r ardal.

THE PEOPLE ARE MIGHTIER THAN THE LORD!

A traditional Welsh slogan in historical disputes between peasants and landed gentry, used by quarry workers in disputes with the earlier quarry owners of the area.

42

Y MAE GAN DDYN HAWL AR EI LAFUR

Llinell o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd o Danygrisiau, yr Athro Gwyn Thomas.

MAN HAS A RIGHT OVER HIS LABOUR

Line from the poem 'Blaenau' by Tanygrisiau poet, Prof Gwyn Thomas.

43

Y CYMRY RHYDD CYMRAEG!

Mae pobl Blaenau yn Gymry, yn siarad Cymraeg, ac yn rhydd o ran ysbryd.

THE FREE WELSH!

Adapting the historical ideal of a 'free Welsh-speaking Wales' to describe the free, independent spirit of Blaenau people.

44

MIWSIG Y BYD YNG NGHURIAD Y STRYD

O fandiau pres, corau ac unawdwyr, i grwpiau canu cyfoes o bob math (a thrŵp drymwyr batala Samba Stiniog heddiw), bu Blaenau'n dref gerddorol erioed. O'r traddodiad hwn datblygodd Gŵyl Car Gwyllt a Gŵyl y Glaw, a phrosiect y Gwallgofiaid – a ddatblygodd yn ganolfan ddiwylliannol CellB, sy'n cynnal gigs â bandiau o bob cwr o'r byd.

MUSIC OF THE WORLD IN THE BEAT OF THE STREET

Blaenau was always a musical town, producing many brass bands, choirs, soloists and pop groups (we now have a batala drumming troupe in Samba Stiniog!). This creative environment spawned festivals like Gŵyl Car Gwyllt and Gŵyl y Glaw, and the Gwallgofiaid project – from which developed the CellB cultural centre, a venue for gigs by bands from all over the world.

45

OEL MORRIS EVANS I WELLA POB DYN BYW!

Un o fentrwyr busnes mwyaf lliwgar yr ardal oedd Morris Evans yr Oel (1857-1923), a fu'n cynhyrchu olew rhinweddol i wella pob math o anhwylderau. Gwerthai'r olew ar draws y byd gyda phamffledi yn ei hysbysebu mewn pedair iaith. Dyma un o'r slogannau a ddefnyddiwyd!

MORRIS EVANS OIL WILL HEAL EVERY LIVING MAN!

Morris Evans the Oil (1857-1923) was one of the most colourful entrepeneurs in the area. He produced an oil and ointment for treating a range of ailments, which was sold across the world with promotional pamphlets printed in four languages. This is one of the slogans used!

46

BRITHYLL BROWN GWYLLT

O'r nofel 'Brithyll' gan yr awdur lleol Dewi Prysor, yn cyfeirio at drigolion yr ardal fel 'brithyll brown gwyllt' sydd yn llawn calon, yn hytrach na brithyll fferm bysgod, sydd yn hawdd i'w dal.

WILD BROWN TROUT

From the novel 'Brithyll' (Trout) by local author, Dewi Prysor, comparing the people of the area to wild brown trout, full of fight, as opposed to farmed, stock trout which are easily caught.

47

Y RHEDEGYDD

Y mwyaf adnabyddus a hirhoedlog o bapurau newydd y Blaenau. Cyhoeddwyd rhwng 1878 a 1951. Argraffwyd yn y siop hon, sy'n parhau i fod yn siop bapur heddiw.

Y RHEDEGYDD (The Runner)

The best-known and longest-standing of Blaenau Ffestiniog's newspapers ran from 1878 to 1951. It was printed on these premises, which is still a newsagent today.

48

SMIT CHWARAL, SMIT BARA

'Smit chwaral' oedd y term am pan fo'r chwarel, neu ran ohoni, wedi cau dros dro am ryw reswm megis eira mawr (smit eira) neu sychder (smit dŵr). Datblygodd y term i gyfeirio at brinder rhywbeth yn y tŷ – "mae'n smit am siwgwr yma," neu "mae'n smit bara yma."

NO QUARRY, NO BREAD (roughly translated)

'Smit chwaral' was the term for when a quarry, or part of it, was temporarily closed for reasons such as heavy snow or drought. The term 'smit' evolved to every day household use, referring to a scarcity or absence of something, such as sugar (smit siwgwr) or bread (smit bara).

49

GWADNAI!

Gair lleol, yn golygu "gwadna hi!" (rhed nerth dy draed!).

LEG IT!

'Gwadn' is Welsh for the sole of a shoe. "Gwadnai!" is colloquial for "leg it!" or "scarper!"

50

TRWY'R CRACIAU DAW GLEINIAU GLAW

Llinell o gynghanedd o farddoniaeth y bardd ac awdur lleol, Sian Northey.

THROUGH THE CRACKS COME BEADS OF RAIN

Line of cynghanedd from local poet and author, Sian Northey. Cynghanedd is the ancient art of Welsh strict metre poetry.

51

CWPANY BYD YNG NGHAE CLYD

I nodi cartref y tîm pêl-droed. Bu nifer o dimau yn y Blaenau cyn i dim y dref (CPD Blaenau Ffestiniog) gael ei ffurfio. Cartref tîm y dref (CPD Amaturiaid y Blaenau heddiw) ydi Cae Clyd, Manod. Cafwyd y llinell hon gan blant Ysgol y Manod.

THE WORLD CUP IN CAE CLYD

Blaenau had many football teams before a town's team (Blaenau Ffestiniog FC) was formed. The home of the present town's team (Blaenau Amateurs FC) is Cae Clyd, in Manod. This line came from Ysgol y Manod children.

52

YSGWYD HEOLYDD Â'U SGIDIAU HOELION

Llinell o gynghanedd o'r awdl 'Grisiau' gan yr awdur a Phrifardd o'r Blaenau, Eigra Lewis Roberts, yn cyfeirio at sŵn y chwarelwyr yn cerdded i'r gwaith.

SHAKING THE STREETS WITH THEIR HOBNAIL BOOTS

Line of cynghanedd from 'Grisiau' by Blaenau Ffestiniog author and Chief Bard Eigra Lewis Roberts, describing the sound of the quarrymen walking to and from work.

A DAILY CRAWIAU YN DALY CREAD

Llinell arall o'r awdl 'Grisiau' gan yr awdur a Phrifardd, Eigra Lewis Roberts.

SLATE SLABS LIKE LEAVES SUPPORTING CREATION

Another line of cynghanedd by local author and Chief Bard, Eigra Lewis Roberts.

MAE FY NGWREIDDIAU YNY GARREG YN WYTHIENNAU

Llinell o waith yr awdur a bardd o'r Blaenau, y Prifardd Eigra Lewis Roberts.

MY ROOTS ARE VEINS IN THE ROCK

A line from Blaenau Ffestiniog author and Chief Bard, Eigra Lewis Roberts.

MAE BRO WEDI DOD ADRA!

Sefydlwyd Clwb Rygbi Bro Ffestiniog yn 1973, ond oherwydd prinder caeau gwastad roedd rhaid i'r tîm chwarae eu gemau cartref ar gae 8 milltir i ffwrdd ym Mhont y Pant. Yn 1976, wedi i gynllun adennill tir glirio tomen lechi fawr Glan-y-don a'i gwasgaru i lawr y cwm, cafwyd cae chwarae ar Y Ddôl, Tanygrisiau. Mewn gweithred symbolaidd, cariodd y tîm rygbi un o'r pyst ar eu hysgwyddau yr holl ffordd o Bont y Pant, dros Fwlch Gorddinan, i Danygrisiau. Un o'r penawdau yn y wasg ar y pryd oedd 'Bro yn dod adref.' Dyma linell i goffau ymdrech arwrol yr hogia, sydd bellach yn chwarae ar Gaeau Dolawel.

BRO CAME HOME!

Flat fields are at a premium in Blaenau. After founding the Bro Ffestiniog Rugby Club in 1973, the team had to play their home games 8 miles away at Pont y Pant. Later, during a land reclamation scheme in Blaenau, the huge Glan-y-don slate tip was removed and spread over land further down the valley, and the club finally got a field on Y Ddôl, Tanygrisiau. In 1976, the team carried one of the rugby posts on their shoulders all the way from Pont y Pant, over the Crimea Pass to Tanygrisiau. One newspaper headline stated that 'Bro are coming home.' This line commemorates the efforts of the club, who today play on Dolawel fields.

SŴN TRICHAN PÂR O SGIDIAU HOELION YN LÓRD STRYD

Dyfyniad o 'Teulu Lòrd Bach' – nofel epig am Flaenau Ffestiniog gan yr awdur lleol Geraint V Jones.

THE SOUND OF 300 PAIRS OF HOBNAIL BOOTS ON LORD STREET

Quote from 'Teulu Lòrd Bach' – an epic novel about the town by eminent local author Geraint V Jones.

HIR OES I ANTUR STINIOG!

Mae hanes Blaenau wedi bod yn un antur mawr erioed. Dyma berl gan blant Ysgol Tanygrisiau, yn cyfuno hynny â'u gobaith am y dyfodol gyda datblygiad llwybrau beicio mynydd Antur Stiniog.

LONG LIVE FFESTINIOG'S ADVENTURE!

Blaenau's story has been one big adventure from the very start. This gem from Ysgol Tanygrisiau children also conveys their excitement at the creation of local mountain bike trails by local initiative Antur Stiniog.

CAEL RHYWUN I'W GYMRYD FEL RHYBELWR BACH

Dyfyniad o'r nofel 'Teulu Lòrd Bach' gan Geraint V Jones. Gwaith rybelwr oedd luro drwy'r rwbel am ddarnau defnyddiol o lechfaen. 'Rybelwr bach' ydi bachgen ifanc yn dechrau ei 'brentisiaeth' yn y swydd.

HOPING TO BE TAKEN ON AS A LITTLE RUBBLER

Another quote from 'Teulu Lòrd Bach' by Geraint V Jones. A rubbler gleaned workeable slate from the rubble in the quarries. A 'little rubbler' is an 'apprentice rubbler' – the commonest opening for a young lad in the quarry.

03
05
07
09
11
13
15
17
19
21
23
25
27
29
31
33
35
37
39
41
43
45
47
49
51
53
55
57
59
61
63
65

54

OESOCRO I AENAUFLA

Yn ôl y son mi ddatblygodd rhai chwarelwyr ffordd o siarad mewn dull na fyddai'r goruwchwylwyr yn ei ddeall. Gweithiwch allan sut mae hwn yn dweud 'Croeso i Flaenau'!

ELCOMEWE OTO AENAUBLA

It is said that backslang was sometimes used in the quarries when things needed to be said discreetly. Try working out how this says 'Welcome to Blaenau'!

55

PYSGOD I BAWB O BOBOLY STRYD

O'r gweithdy yn Ysgol Manod. Pan fo criw yn dod adref o bysgota efo haldiad da o bysgod, mae hi'n arferiad cyffredin i'w rhannu efo'r cymdogion.

FISH FOR EVERYBODY IN THE STREET

From the Ysgol Manod workshop. When anglers return with a bag full of fish it's common practice to share them with the neighbours.

56

YSGOL SUL A BANDOHÔP

Sefydliadau a chwaraeodd ran gymdeithasol ym mywyd y fro.

SUNDAY SCHOOL AND THE BAND OF HOPE

Once central institutions in the town, when there were dozens of chapels and churches serving the growing population.

57

GWEDDÏO O'R FREST

Dywediad lleol am rywun yn gweddïo o'r galon, heb ddarllen o lyfr

PRAYING FROM THE BREAST

Local saying for one who prays from the heart, without the use of a book

58

LLEUFER BRWD LLAFAR BRO

O arwyddair ein papur bro lleol, Llafar Bro, a sefydlwyd yn 1975. "Ieuanc a hen ddarlleno, O leufer brwd 'Lafar Bro.'"

THE BRIGHT LIGHT OF LLAFAR BRO

From the couplet of cynghanedd that is the motto of local community paper Llafar Bro (est. 1975).

59

RHOI CELC YNY BOCED FACH

Mae 'celcio' a 'hel celc' yn dermau lleol i Blaenau sy'n golygu cynilo arian yn dawel bach. Rhoddai gweithwyr y chwareli fymryn o'u cyflog yn eu poced ar gyfer prynu chydig o gwrw – gan amlaf heb ddweud wrth y wraig!

PUT SOME 'CELC' IN THE LITTLE POCKET

'Celcio' and 'hel celc' are unique Blaenau terms for putting money aside quietly. May have originated in the quarries, as workers would keep a little bit of beer money in their small pocket on payday – usually without the wife's knowledge!

59+

IECHYD DA!

Y llwncdestun traddodiadol Cymreig.

GOOD HEALTH!

The Welsh drinking toast. As in "cheers!"

60

BEIC I BAWB O BOBL Y BYD!

Neges barhaol y beiciwr a rasiwr William Jones Penny (1873-1955), un o lu o gymeriadau lliwgar yr ardal. Yn ddyn o flaen ei amser, pregethai yn ddiflino ar i bobl fwyta bwyd iach ac i gadw'n heini.

A BIKE FOR ALL THE PEOPLE OF THE WORLD!

The perennial message of racing cyclist William Jones Penny (1873-1955), one of a host of colourful Blaenau characters. A man ahead of his time, he tirelessly urged people to eat healthy foods and keep fit.

61

NI DDYCHWEL DDOE

Arwyddair yr hen Ysgol Ganol, sefydliad pwysig yn hanes yr ymdrech i ddarparu addysg i blant gweithwyr y dref.

YESTERDAY WILL NOT RETURN

Motto of the old Middle School in the town, an important milestone in the long struggle to provide universal education in a rapidly growing industrial town.

62

BU'R ŴYL HEB UMBARELO

Yn 1898, wedi ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â'r dref, canodd Bardd Dyfed y llinell hon o gynghanedd i lawenhau na chafwyd glaw yn ystod yr ŵyl!

THE FESTIVAL PASSED WITHOUT THE NEED FOR AN UMBRELLA

After the National Eisteddfod – held in the town in 1898 – passed off without a deluge, a poet remarked (in cynghanedd) that the festival had passed without having to resort to 'umbrelling'!

63

EIRA MAWR DDAW Â'R LANDARS I LAWR

Yn ystod yr eira mawr dros y Nadolig 2010, disgynnodd landeri tua hanner tai a busnesau'r dref, gan atgoffa pawb fod ochr dywyll i harddwch y flanced wen. Dyma ddihareb newydd, felly, wedi ei chreu gan ddisgyblion Ysgol y Moelwyn!

BIG SNOW WILL BRING THE GUTTERING DOWN

During the big snow around Christmas 2010 nearly half the town's guttering came down under the weight of the snow – a reminder of the dark side of the pretty white stuff. Following in the tradition of Welsh diarhebion – neatly worded, catchy rhymes with profound lessons – this is a new wisdom created by the pupils of Ysgol y Moelwyn!

03 05 07 09 11 13 15 17 19 21 23 25 27 29 31 33 35 37 39 41 43 45 47 49 51 53 55 57 59 61 63 65

64

Y DDINAS GADARN

Enw cân am y Blaenau gan Gwyn Thomas a Gai Toms, a gomisiynwyd ar gyfer y teledu.

THE STRONG / RESILIENT / SOLID CITY

The title of a specially commisioned song about Blaenau by Gwyn Thomas and Gai Toms, both of Tanygrisiau.

TT'N PASA AROS?

Gair lleol i Blaenau ydi 'pasa' – sy'n golygu 'bwriadu.' Cynigiwyd ef gan blant Ysgol Bro Cynfal. Y gobaith ydi cael ymwelwyr i aros a siopa yn y dref.

DO YOU INTEND STAYING?

Contributed by Ysgol Bro Cynfal children, 'pasa' is the Blaenau word for 'intending' or 'to intend.' It is hoped that more visitors will stay and shop in the town.

65

TORTH GOCH A SIWGWR COCH

Enwau pobl yr ardal am dorth frown a siwgwr brown.

RED LOAF AND RED SUGAR

Local terms for a brown loaf and brown sugar

66

ENWOG ATHEN Y GWEITHWYR

Llinell o englyn y bardd a radicalydd lleol, Cyffdy (William Jones), yn Eisteddfod Chwarel Llechwedd 1876, yn son am ddiwylliant y Caban.

FAMOUS ATHENS OF THE WORKERS

A line of cynghanedd from an englyn by local poet and radical, Cyffdy (William Jones) at the Llechwedd Quarry Eisteddfod 1876, describing the culture of the Caban. 'Athens' was commonly used in classical Welsh poetry as a metaphor for learning and civilisation.

67

AL FRESCO, HEN FOI IAWN!

Mae hiwmor a ffraethineb yn rhan bwysig o hunaniaeth y dref. Dyma engraifft gan blant Ysgol y Moelwyn, yn addas i'w osod tu allan i gaffi.

AL FRESCO'S AN ALRIGHT BLOKE

Humour is an integral part of Blaenau's identity. This example by Ysgol y Moelwyn pupils is perfect for placing amidst the tables outside a cafe.

68

SI LASI BA, SI LASI BASA

Cân draddodiadol plant Tanygrisiau dros y cenedlaethau.

SI LASI BA, SI LASI BASA

Traditional Tanygrisiau children's song/chant, the meaning of which is a mystery.

YN EIN BLAENAU!

Ymlaen â ni!

ONWARDS WE GO!

And never stop!

03
05
07
09
11
13
15
17
19
21
23
25
27
29
31
33
35
37
39
41
43
45
47
49
51
53
55
57
59
61
63
65

A'R LLWCHYN DRWCH AR DRAWS BYWYDAU BRAU

Dyfyniad o waith y bardd o Danygrisiau, Cynan Jones, yn cyfeirio at afiechyd 'y Llwch' (silicosis) a fu'n gymaint o felltith ar iechyd chwarelwyr y fro.

AND HEAVY THE DUST UPON FRAGILE LIVES

Quote from a poem by Tanygrisiau poet Cynan Jones referring to 'The Dust' (the lung disease, silicosis) that was the price many quarry workers paid for a living wage.

CHWARELWYR A CHANTORION

O weithdai Ysgol Maenofferen, Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol y Moelwyn. Mae'n cyfeirio at draddodiad cerddorol y dref a'i chorau fel Côr y Moelwyn a'r Brythoniaid.

QUARRYMEN AND SINGERS

From the workshops in Ysgol Maenofferen, Ysgol Bro Cynfal and Ysgol y Moelwyn. Refers to the rich singing tradition of the town and its choirs, such as Côr y Moelwyn and Côr y Brythoniaid.

CADERNID SY'N EU GWAED, CADERNID IAITH.

Dyfyniad o waith y bardd o Danygrisiau, Cynan Jones, yn disgrifio cadernid cymeriad a diwylliant y chwarelwr.

STRENGTH FROM THEIR LANGUAGE IN THEIR BLOOD

Quote from Tanygrisiau poet, Cynan Jones, referring to the inner strength and pride in their culture that the quarrymen possessed.

YN Y BORA MAE'I DAL HI

Dywediad lleol sy'n golygu be mae o'n ddweud ar y tun.

THE EARLY BIRD CATCHES THE WORM

(Roughly) The local way of saying that the early bird catches the worm.

BLAENAU MEGA CŴL

Cynnig gan blant Ysgol Maenofferen a ategwyd gan blant ysgolion eraill, sydd yn engraifft o ieuenctid yn mabwysiadu termau ffasiynnol yr oes. Fel gyda'r arferiad o dderbyn a Chymreigio termau technegol a diwydiannol Saesneg a'u hawlio i'r iaith frodorol, mae'n arwydd fod y Gymraeg yn iaith sydd yn fyw ac iach.

MEGA COOL BLAENAU

Offered by Ysgol Maenofferen children, and echoed in other schools, this is an example of how children adopt the latest fad words. As with the Cymrifying of English technical and industrial terms over the years, claiming them for the native tongue, it demonstrates that Welsh is a living, spoken language.

BRO FACH Â CHALON FAWR

O'r gweithdai yn Ysgol y Moelwyn.

A SMALL PLACE WITH A BIG HEART

From the workshops with Ysgol y Moelwyn pupils.

70+

LLIW, NID LLWYDNI

Dywed rhai o du allan yr ardal fod y tomenni llechi'n llwydaidd a hyll. Ond mae nhw'n llawn lliwiau i blant Ysgol y Moelwyn.

COLOUR, NOT GREYNESS

Some people from outside the area regard the slate tips as grey and gloomy, but they are full of colour to the children of Ysgol y Moelwyn.

DIWYLLIANT YMYSG DIWYDIANT

Dyfyniad am dreftadaeth diwylliannol y Caban yn y chwareli, o waith yr hanesydd ac awdur lleol Vivian Parry Williams.

CULTURE AMIDST INDUSTRY

Quote from the work of local history stalwart and author, Vivian Parry Williams, referring to the cultural heritage of the Caban. Each quarry level had an underground Caban – a canteen where eisteddfodau and political debate frequently took place during lunch breaks.

71

STESION FAIN, STESION LONDON, STESION GRÊT

Enwau trigolion y dref am y dair prif orsaf rheilffordd, ers talwm. Gorsaf LNWR oedd Stesion London, a gorsaf GWR oedd Stesion Grêt. Symudwyd sied gysgodi Stesion Fain i gae pel-droed Cae Clyd i ddarparu cysgod i'r cefnogwyr.

NARROW STATION, LONDON STATION, GREAT STATION

Colloquial names for the three main rail stations of the town in years gone by, fondly remembered by many. 'Stesion London' was the LNWR station, and 'Stesion Grêt' was the GWR station in the centre of town. The shelter building of 'Stesion Fain' was moved to the football ground at Cae Clyd to provide shelter for the crowd.

SIANG-DI-FANG

Term lleol am berson neu blentyn aflonydd, fel tae wastad ar gychwyn i rywle.

SIANG-DI-FANG

Pronounced "Shang-dee-vang." An expression for a person or child who can't keep still.

03
05
07
09
11
13
15
17
19
21
23
25
27
29
31
33
35
37
39
41
43
45
47
49
51
53
55
57
59
61
63
65

LLEFERYDD Y GRAIG

Bod yn bwynt trawiadol yng nghalon y dref yw bwriad y pileri. Wedi eu creu gan artist lleol, Howard Bowcott, mae'r pileri sydd yn 7.5 medr o uchel yn cynnwys miloedd o lechi 'Stiniog ac wedi ei 'hysbrydoli gan gynion y chwarelwyr medrus o'r chwareli.

Mae'r pileri fel croestoriad o dirwedd mynyddoedd y dref, gyda miloedd o lechi bychain wedi ei gosod i adlewyrchu strata'r mynyddoedd gyda bandiau o lechi yn adlewyrchu'r gwythiennau sy'n rhedeg drwy'r chwareli. Ceir barddoniaeth a thermau chwarelyddol ar y pileri yn adlewyrchu traddodiadau'r gymuned chwarelyddol.

Mae pob darn o lechen wedi cael ei gosod ar ongl o 30 gradd, yr ongl gyffredin ar gyfer gwlâu llechi yn Blaenau. Mae dringo'r grisiau rhwng y pileri yn debyg iawn i ddringo allan o siambr yn y chwarel, rhwng y pileri a oedd yn cynnal y to.

Bwriad y darn yw dathlu treftadaeth cyfoethog y dref, cewch ddysgu mwy am yr hanes a'r dreftadaeth yma wrth ddarllen y geiriau sydd ar y pileri. Mae'r geiriau a'r dywediadau wedi ei rhifo er mwyn eich cynorthwyo i ddysgu mwy am hanes y dref.

HEARING THE MOUNTAIN

The four pillars on the steps provide the 'wow!' factor in the heart of Blaenau Ffestiniog. Created by locally based artist Howard Bowcott, the 7.5 metre high pillars of Ffestiniog slate are inspired by the shape of the slate splitter's chisels used by craftsmen in the quarries.

The pillars are like a geological slice through the mountains behind the town. Thousands of slates have been meticulously laid like strata, with bands of polished slate resembling veins found in the quarries. Poetry and slate mining terms specific to Blaenau are engraved on the bands, celebrating the culture of the slate mining community.

All the slates have been laid at 30 degrees, the typical angle of the slate beds in the Blaenau quarries. Climbing the steps between the pillars is like clambering out of the quarry chambers between the pillars of strata that support the roof.

The pillars are a reminder of the rich heritage upon which the town is built. You can explore some of that heritage as you read the text that wraps around the columns - look out for the numbers at the start and end of each band to help you in your discoveries.

03
05
07
09
11
13
15
17
19
21
23
25
27
29
31
33
35
37
39
41
43
45
47
49
51
53
55
57
59
61
63
65

P1

CŶN TEWIO, CŶN BRASOLLT, CŶN MANOLLT

Rhai o'r cynion a ddefnyddir gan y chwarelwyr wrth droi talp o lechfaen yn lechi, o fras-hollti i fân-hollti a thewio.

CŶN TEWIO, CŶN BRASOLLT, CŶN MANOLLT

Some of the quarryman's chisels for various stages of splitting the rock and sawn slate (primary splitting and final splitting).

CAR GWYLLT

Yn unigryw i Chwarel y Graig-ddu yn y Blaenau, gwnaed y ceir gwyllt gan of y chwarel, Edward Ellis, er mwyn i'r gweithwyr deithio'n sydyn i lawr yr inclên ar ddiwedd diwrnod o waith. Gwnaed y car gwyllt o ddarn o bren ag olwyn oddi tano, gyda rodan haearn yn estyn drosodd i rolio ar far arall y ffordd haearn, a brêc i arafu. Caniateid eu defnydd gan berchnogion y chwarel, ond nid oeddynt yn gyfrifol am ddiogelwch y sawl a'u defnyddiai gan eu bod yn declynau peryglus, a bu sawl damwain erchyll yn sgil eu defnydd. Enwyd yr ŵyl gerddorol leol, Gŵyl Car Gwyllt, ar ôl y cerbyd hwn.

CAR GWYLLT (WILD CAR)

Unique to the Graig-ddu quarry, the car gwyllt was a contraption, made by the quarry's blacksmith, Edward Ellis, that a quarry worker would use to descend the incline at the end of a day's work. Consisting of a piece of wood upon which the rider sat, with a wheel underneath, and a steel rod reaching over to the other rail of the track, and a makeshift brake, it was considered a dangerous object (many horrific accidents are recorded), and though quarry owners allowed its use, they would not be held accountable for injuries. The local music festival Gŵyl Car Gwyllt was named after the car gwyllt.

CREIGWYR, RHYBELWYR, FFORDDOLIWRS

Arwahan i'r chwarelwyr (oedd yn hollti a naddu'r llechi) dyma dri engraifft arall o swyddogaethau'r chwarel. Y creigwyr a weithiai ar wyneb y graig o dan ddaear, y rhybelwyr fyddai'n hel cerrig da o gerrig sal ac yn rhoi help llaw i bawb fel bo'r galw, a'r fforddoliwrs oedd yn cynnal y tramffyrdd.

ROCKMEN, RUBBLERS, TRACKMEN

Other than the quarrymen themselves (those who would split and dress the finished slates) these were the other main trades in the quarries. The rockmen worked underground on the rock face, the rubblers would glean good rock from bad while helping the rockmen, and the trackmen (or platelayers) were responsible for the maintenance of tramways.

P2

Y WYTHIEN FFYRNIG – Y DDWBWL – Y SAITH – Y BITSH

Tra mai 'llygadau' y galwai'r chwarelwyr y gwythiennau o lechfaen yn y graig, dim ond ar gyfer y rhubannau o garreg ddiffygiol a redai ar draws y llygadau y defnyddiwyd y gair 'gwythiennau.' Mae'r enwau a roddwyd i'r gwythiennau hyn yn unigryw ac ymysg yr enwau mwyaf lliwgar a difyr yn yr iaith Gymraeg. Dyma ddetholiad ohonynt.

THE FIERCE VEIN – THE DOUBLE – THE SEVEN – THE BITCH

While, in Welsh, the quarrymen would call the veins of slate rock in the ground 'llygadau' (eyes), the Welsh word for 'veins' (gwythiennau) was reserved solely for the bands of impure rock, or faults, that traversed the 'eyes.' The names given to these veins are unique, and are among the most colourful in the Welsh language. Here is a small selection of those names.

Y FAINC SGLODION

Y fainc ble y gosodwyd llechi wedi eu hollti yn barod i'w naddu. Hefyd yn enw ar Gymdeithas Lenyddol yn y dref.

THE SHAVINGS BENCH

The bench on which split slates were stacked to await dressing. Y Fainc Sglodion is also the name of a Literary Society in the town.

PENNA LLIFIA, PENNA CŴN

'Penna llifia' yw enw'r talpiau o wâst ar ôl llifio darnau mawr o lechfaen. Defnyddir hwy yn aml i godi waliau. 'Penna cŵn' yw'r enw am glympiau o gerrig di-siap. Cynhwysir nhw yma yn eu ffurf llafar. 'Pennau Llifiau, Pennau Cŵn' (yn eu ffurf safonnol) yw teitl darlith a llyfryn ar hanes a geirfa tafodieithol y Blaenau gan yr academydd Bruce Griffiths, un o feibion disgleiriaf yr ardal.

SAW ENDS AND DOG HEADS

'Saw ends' are the waste rock sawn off from large pieces of slate rock. They are commonly used to build walls. 'Dog heads' are unshapely lumps of slate rock. 'Pennau Llifiau, Pennau Cŵn' (the standard spelling) is also the title of a lecture and booklet by the Blaenau Ffestiniog born academic, Bruce Griffiths.

WEDI GWEITHIO'R AGOR ADRA

Wedi gweithio'r garreg (llechfaen) i gyd o'r agor o dan y ddaear.

HAVING WORKED THE CHAMBER HOME

Having worked all the slate rock from an underground chamber.

P3

DIWEDDU DYDDIAU DIDDAN - YMA WNAWN MEWN UNAWD A CHYTGAN; DAW SŴN GWYNT, DAW SAIN Y GÂN A THINC GOBAITH I'N CABAN

Eos Gwynant

Englyn enwog Eos Gwynant ar achlysur agor Caban Pensiynwyr y Blaenau, yn 1937, ar ôl llwyddiant ymgyrch boblogaidd yn y dref.

Famous englyn by Eos Gwynant, celebrating the opening of the Caban for Blaenau's pensioners in 1937, following a successful campaign in the town.

P4

DO, BU YNO BRYSURDEB UNWAITH, A SŴN O GABAN, A SAIN GOBAITH; FEL CLYCHAU'N TINCIAN CLYWED GANWAITH GLEP PEDOLAU'R HOGIAU FORE GWAITH

Yes, there were busy working times, and the noise from the caban and the sound of hope; one could hear the sound of the men's shoes in the morning, just like the sound of a hundred bells chiming.

Gwilym R Tilsley

Dyfyniad o gynghaneddu'r Prifardd ac Archdderwydd Gwilym R Tilsley, yn sôn am y chwareli llechi'n cau.

Cynghanedd poetry by Chief Bard and Archdruid, Gwilym R Tilsley, about the decline of the slate mining industry.

P5

Y TOLC DWBWL - Y GORTYN - Y DDIFIR - Y FAWR ISAF – Y TOLC MAWR - Y LAS ISAF - Y DATWS

Detholiad arall o enwau'r gwythiennau o garreg ddiffygiol yn y llygadau o lechfaen.

THE DOUBLE DENT – THE ROPEY – THE PLEASANT – THE BOTTOM LARGE – THE LARGE DENT – THE BOTTOM BLUE – THE POTATO

Another selection of names for the fault bands traversing the 'eyes' of slate rock.

DAETH DIWEDD Y CHWAREL HEB LAWER O STŴR, MAE'R FELIN YN DAWEL A'R LEFEL DAN DDŴR

The end of the quarry came without much fuss, the mill is now quiet and the chamber under water.

Vivian Parry Williams

Pennill o waith y bardd, hanesydd ac awdur lleol, Vivian Parry Williams, yn sôn am y chwareli'n cau i lawr gyda dirywiad y diwydiant llechi.

Poetry by local poet, historian and author, Vivian Parry Williams, referring to the shutting down of quarries as the slate industry declined.

P6

FE WELWCH FREICHLED O DREF AR ASGWRN Y GRAIG

Gwyn Thomas

Llinell enwog o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd ac academydd o Danygrisiau, Gwyn Thomas.

Famous line from the poem 'Blaenau' by Tanygrisiau-born poet and academic, Gwyn Thomas perfectly describing the town as "a bracelet of a town on the bone of the rock.

CHWAIN YNY LLECHI

Yn cyfeirio at yr hyn a elwid yn 'chwain' – sef smotiau bychain tebyg i chwain yng ngraen y llechen.

FLEAS IN THE SLATE

Referring to what the quarrymen would call 'chwain' – flea-like spots in the grain of the slate.

ODDI WRTH DINY FUWCH

Gweithiwr fferm a drodd at y chwarel am gyflogaeth.

FROM THE COW'S BEHIND

A farm worker who has turned to the quarry for employment.

P7

Y WYTHIENWEN A'R TEULU – Y FAWR – Y GAM – Y SLONT GLAI – GWYTHIENNAU MÂN A'R SULPHUR – Y LWYD

Detholiad arall o enwau'r gwythiennau o garreg ddiffygiol yn y llygadau o lechfaen.

THE WHITE BAND AND FAMILY – THE BIG – THE CROOKED – THE CLAY SLANT – THE SMALL BANDS WITH SULPHUR – THE GREY

Another selection of names for the fault bands traversing the 'eyes' of slate rock.

P8

YWYTHIEN CALED A'R TEULU – YWYTHIEN FFLAT – Y GRYCH

Detholiad arall o enwau'r gwythiennau o garreg ddiffygiol yn y llygadau o lechfaen.

THE HARD BAND AND FAMILY – THE FLAT BAND – THE WRINKLE

Another selection of names for the fault bands traversing the 'eyes' of slate rock.

LLYGAD MOCHYN

Yr haenen uchaf, a salaf, o lechfaen.

PIG EYE

The topmost North Vein of poor slate.

SULPHUR Y LLYGAD CALED ISAF

Gwythien o garreg ddiffygiol i'w chanfod yn yr Hen Lygad.

SULPHUR OF THE BOTTOM HARD BAND

One of the fault bands traversing the Old Vein.

P9

RHWNG Y PILERI CERRIG AR HYD Y CENEDLAETHAU, GYDA'R WAGENNI, AR Y TOMENNYDD RWBEL, YN Y CABANAU DAETH DYNION I ADNABOD EI GILYDD

Between the stone pillars over generations, with the wagons on the waste tips, men came to know each other in the caban."

Gwyn Thomas

Dyfyniad o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd ac academydd o Danygrisiau, Gwyn Thomas.

Quote from the poem 'Blaenau' by Tanygrisiau poet and academic Gwyn Thomas.

P10

LLYGAD COCH

Yr ail haenen o lechfaen o'r uchaf.

RED EYE

The Back Vein, the second from top layer of slate rock.

Y TEW CYRLI

Gwely o lechfaen diffygiol yn y Llygad Coch.

THE CURLY FAT

'Tew' (fat) refers to a thickness, or bed of slate. 'Y Tew Cyrli' refers to a fault found in the Back Vein.

MARC PEN TRWYN

Arferiad creulon o ddefnyddio darn o lechen finiog i grafu marc croes ar drwyn rhywun oedd yn dechrau gweithio yn y chwarel.

MARK ON THE NOSE

A cruel initiation custom in the quarry. The newcomer would have a cross scratched on his nose with a piece of sharp slate.

NOSON GWARIO'R CWBWL

Tra y talwyd y Tâl Mawr unwaith y mis, talwyd y tâl cynhaliaeth wythnosol yn y chwarel bob dydd Gwener, felly nos Iau oedd y noson gwario'r olaf o'r tâl bach.

SPEND THE LOT NIGHT

While the Big Pay was paid monthly, the quarries would pay the weekly substistence wage every Friday. Thursday nights, therefore, would be when some quarry workers would spend the last of their weekly money.



CAEL PEN BAR

Dros gyfnod o amser byddai ambell i far haearn rheilffyrdd y chwareli yn llacio, ac mi fyddai ei ben yn codi rhyw fymryn yn uwch na'r bar agosaf ato. Byddai hyn yn ddigon i ambell chwarelwr fachu blaen ei esgid ynddo a chael codwm. 'Cael pen bar' oedd yr enw am hyn, a daeth yn ddywediad cyffredin yn y gymuned am pan fo rhywun yn cael bagliad, neu yn cael tro trwstan, neu yn 'cael ail'.

GET THE END OF A BAR

Over time, some of the fixings of the bars on the quarry tramways would loosen, causing the end of the bar to rise a little higher than the adjoining bar. This would be enough for a quarry worker to catch the tip of his shoe on the end of the raised bar, sending him sprawling to the ground. The saying developed into every day community usage for when some one tripped or, indeed, had his plans foiled, was disappointed or got a stroke of bad luck.

CODI CERRIG

Symud, stacio a chyfri'r llechi a wnaed gan y chwarelwyr cyn eu cludo o'r felin.

LIFTING STONES

Moving, stacking and counting the slates made by the quarryman, before shipping them out of the mill.

LLOFFA CLYTIA

Arferiad ymhlith hogia ifanc y chwarel o fynd ar ofyn chwarelwyr profiadol am ddarnau o lechfaen i'w weithio er mwyn gwneud eu cyflogau i fyny.

CLUMPS OF ROCK

The young lads in the quarries would go begging the elders for a lump of good slate rock to work with, in order to make up their pay.

BWYTA'I PHEN

Wedi tyllu'r garreg dda i gyd o'r agor – heblaw am be oedd yn y pileri, sef y graig a adawyd ar ôl i ddal y mynydd i fyny!

HAVING EATEN HER HEAD

The rock in an underground chamber becoming unproductive, having used all of the good slate rock apart from that in the pillars (the rock left to hold up the mountain!).

GWNITHFAEN ISAF

Yr haenen o wenithfaen rhwng gwaelod yr Hen Lygad a phen uchaf y Llygad Newydd.

THE BOTTOM HARD

The layer of granite between the Old Vein and the New Vein.

P11 YN SYCH FEL BRECHDAN BEDWAR

Brechdan a adawyd yn y tun bwyd at ddiwedd shifft 4 o'r gloch.

DRY AS A FOUR O' CLOCK SANDWICH

A sandwich left in the lunch box at the end of the 4 o'clock shift.

LLYGAD BACH

Yr haenen o lechfaen uwchben yr Hen Lygad

THE NARROW VEIN

The bed of slate rock above the Old Vein.

CARREG YN TINCIAN FEL CLOCH

Carreg dda. Arferai'r creigwyr a chwarelwyr ddweud os oedd darn o lechfaen yn garreg dda neu beidio trwy ei daro â gordd neu fwrthwl trwm. Byddai carreg dda yn tincian fel cloch.

03 05 07 09 11 13 15 17 19 21 23 25 27 29 31 33 35 37 39 41 43 45 47 49 51 53 55 57 59 61 63 65

THE STONE TINKLING LIKE A BELL

A good piece of slate rock would tinkle like a bell when struck with a sledge hammer.

P12

MOR BRIN Â CHWYS FFORDDOLIWR

Dywediad direidus o'r chwareli, yn cyfeirio at 'ddiogi' honedig y dynion oedd yn gyfrifol am reilffyrdd y chwarel.

AS RARE AS A TRACKMAN'S SWEAT

A mischievous quarry expression, referring to the alleged 'laziness' of the trackmen who built and maintained the quarry tramways.

NADDU'N RHY AGOS I'R DRAFA'L

Dywediad ddaeth o felinau'r chwareli, yn golygu bod yn rhy agos i'r asgwrn efo tynnu coes, neu rywun yn pwsio'i lwc. Y drafa'l oedd yr ymyl y gosodwyd y llechen arno er mwyn i'r Injan Naddu ei naddu. Byddai eiliad o ddiffyg canolbwyntio yn ddigon i rywun golli ei fysedd.

DRESSING TOO CLOSE TO THE EDGE

An expression originating from the quarry mills, meaning 'too close to the bone' with a joke, or 'cocky' or 'pushing one's luck.' The edge in question is what the split slates were placed upon as the dressing machine dressed them. One slip of concentration meant losing your fingers!

LLYGADAU YN Y GRAIG

Yn yr ardaloedd llechi, gelwid yr haenau, neu welyau, o lechfaen yn y ddaear yn 'lygaid.' Mae enwau rhai llygaid yn amrywio o ardal i ardal, ac eraill yn gyffredin. Eu henwau yn yr ardal hon oedd; Llygad Mochyn (yr haenen uchaf a salaf), Llygad Coch, (yr ail haenen o'r uchaf), Llygad Bach (y gwely cul uwchben yr Hen Lygad), yr Hen Lygad (yr haenen gyntaf i gael ei gweithio), a'r Llygad Newydd (y gwely dyfnaf yn y graig).

EYES IN THE ROCK

In north Wales the beds or layers of slate were called 'llygadau' (literally 'eyes' but are translated into English as 'veins'). In Blaenau Ffestiniog the names of these 'eyes' were as follows; 'Llygad Mochyn' ('pig eye' – the topmost North Vein of poor slate), 'Llygad Coch' ('red eye' – the Back Vein, second from top), 'Llygad Bach' ('small eye' – the Narrow Vein above the Old Vein), 'Hen Lygad' ('old eye' – the Old Vein), and 'Llygad Newydd' ('new eye' – the New Vein, or Deep Vein, lowest in the rock formation). The Welsh word for a vein – gwythien – was reserved specifically to describe the many bands and faults that run across the slate beds.

RHEDAG AR EI HÔL HI

Yn brysur yn gweithio'n galed, yn aml i ddal i fyny pan fyddid ar ei hôl hi efo'r gwaith.

RUNNING AFTER IT

Hard at it, busily working, sometimes due to running late or running behind.

P13

SBWRIEL O CHWAREL WEDI'I CHAU – A NIWL Y NOS AR Y CRAWIAU; A GWAITH DYN, FEL BRETHYN BRAU YN BRAENU RHWNG Y BRYNIAU

Gwilym R Tilsley

Englyn y Prifardd ac Archdderwydd Gwilym R Tilsley, o gadwyn yn yr awdl 'Cwm Carnedd' a ennillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni yn 1957.

An englyn from the awdl 'Cwm Carnedd' by Chief Bard and Archdruid Gwilym R Tilsley, lamenting the decline of the slate industry. The awdl won the Chair at the Llangefni National Eisteddfod in 1957.

P14

GWYTHIENY MEINARS – Y GWYTHIENNAU RHYWIOG – Y WYTHIEN ISAF O'R TAIR A'R TEULU – GWYTHIENY CRYCH DU – Y SULPHUR – Y PUM WYTHIEN

Detholiad arall o enwau'r gwythiennau o garreg ddiffygiol yn y llygadau o lechfaen.

THE MINERS' BAND – THE EASY BANDS – THE LOWER BAND OF THE THREE AND ITS FAMILY – THE BAND OF THE BLACK WRINKLE – THE SULPHUR – THE FIVE BANDS

Another selection of names for the fault bands traversing the 'eyes' of slate rock.

SMOTIA LLAETH

Smotiau gwyn tebyg i lefrith wedi ei golli ar wyneb y garreg neu lechfaen o'r Hen Lygad

MILK SPOTS

Large spots resembling milk splashes found in slate, often in Old Vein slates.

P15

OER EI DRUM, GARW'I DREMYNT

Llinell amlwg o englyn enwog Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans), Bardd y Gadair Ddu, i'r Moelwyn.

A BLEAK VIEW OF A COLD RIDGE

Famed line of cynghanedd from the famous englyn to the Moelwyn, written by Trawsfynydd poet Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans), who won the infamous Black Chair at the National Eisteddfod, Birkenhead 1917, after being killed in the battle of Passchendaele.

HEN LYGAD

Yr Hen Lygad – lle y gorwedd peth o'r llechfaen gorau. Mae'r llechi tenau yn y pileri hyn i gyd wedi dod o'r Hen Lygad yn Llechwedd. Mae'r bandiau llechi sydd wedi eu sgleinio yn dod o Cwt y Bugail.

OLD EYE

The Old Vein – where some of the best slate is found. All the thin slates in the pillars have come from the Old Vein at Llechwedd. The polished bands have come from Cwt y Bugail.

ARY LLECHEN Y TYFODD Y DREF HON

Dyfyniad o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd o Danygrisiau, Gwyn Thomas.

THIS TOWN GREW ON THE SLATE

Quote from the poem 'Blaenau' by Tanygrisiau poet, Gwyn Thomas.

P16

AR ORWEDDIAD Y GRAIG Y MAE'R CREIGIWR

Dyfyniad o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd o Danygrisiau, Gwyn Thomas.

THE ROCKMAN ON THE LIE OF THE ROCK

Quote from the poem 'Blaenau' by Tanygrisiau poet, Gwyn Thomas.

MAE SŴN LLECHI'N CRAFU'R NOS

Dyfyniad o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd o Danygrisiau, Gwyn Thomas.

THE SOUND OF SLATES SCRAPING THE NIGHT

Quote from the poem 'Blaenau' by Tanygrisiau poet, Gwyn Thomas

P17

TEW WYTH, TEW PEDAIR, TEW DWY

Termau yn gysylltiedig â hollti llechen wedi'i llifio – trwch wyth llechan, trwch pedair, trwch dwy...

FAT EIGHT, FAT FOUR, FAT TWO

Terms for various stages of the final splitting of slate – to the thickness of eight slates, then four, then two...

CYFRI FESUL MWRW

Arferid cyfri llechi fesul mwrw (tair llechen). 'Twenti won a dwy' (dauddeg un mwrw a dwy) oedd yr enw am 65 llechen, a 'thyrti thri ag un' oedd cant.

COUNTING BY THE MWRW

Slates were counted by the 'mwrw' (three slates). Sixty five slates were called 'twenty one and two' (twenty one mwrw and two), and one hundred slates 'thirty three and one'.

YN CLYWED CARREG AR GARREG, RWBEL AMSER, YN RHYGNU RHWNG Y MYNYDDOEDD

Hearing stone on stone, the waste of time, grinding between the mountains.

Gwyn Thomas

Dyfyniad o'r gerdd 'Blaenau' gan y bardd o Danygrisiau, Gwyn Thomas.

Quote from the poem 'Blaenau' by Tanygrisiau poet, Gwyn Thomas.

P18

MYND NÔL I FLAENAU FFESTINIOG

Dyfyniad o gân enwog y Tebot Piws. Cyfranwyd i'r prosiect hwn gan blant Ysgol Maenofferen ac ysgolion eraill.

GOING BACK TO BLAENAU FFESTINIOG

Quote from a famous song of the same name by legendary Welsh folk-rock band Tebot Piws. Contributed to this project by pupils of Ysgol Maenofferen and other local schools.

EI GALONYN CURO FEL MWRTHWL MEINAR

Calon rhywun yn curo'n sydyn, fel oedd morthwylion y creigwyr wrth dyllu'r graig – yn enwedig y creigwyr cryfaf a mwyaf profiadol.

HIS HEART BEATING LIKE A MINER'S HAMMER

Heart beating as fast as a rockman chiselling the rock face.

CERRIG MÂN FEL TATWS

Weithiau roedd rhaid gwneud llechi bach oherwydd mai dim ond blociau o lechen sâl oedd ar gael.

SLATES LIKE POTATOES

Having to make small slates due to there being only poor quality blocks available.

CARREG FEL HAEARN SBAEN

Llechfaen galed.

SLATE LIKE SPANISH IRON

Hard slate rock.

CERRIG YN HOLLTI FEL GWÊR

Cerrig da, yn hollti'n hawdd.

SLATES SPLITTING LIKE TALLOW

Good slate, splitting easily.

03 05 07 09 11 13 15 17 19 21 23 25 27 29 31 33 35 37 39 41 43 45 47 49 51 53 55 57 59 61 63 65

BLAENAU YMLAEN

Datblygwyd gweledigaeth ar gyfer y dref gan Blanau Ymlaen yn 2007 i "greu lle i fyw, i weithio ac i ymweld â hi sy'n gyffrous, bywiog a deniadol, sy'n enwog am ddiwylliant a chelfyddyd, yr ymdeimlad cryf o gymuned a'r amgylchedd syfrdanol. Bydd y dref yn adeiladu ar y nodweddion unigryw hyn mewn dull cynaliadwy er mwyn cyflawni adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol." Ers hyn mae'r grŵp gwirfoddol hwn wedi bod yn gweithio'n galed i gyrraedd y nôd yma, heb yr ymdrech hon ni fyddai dim o hyn yn bodoli heddiw. Mae'r cynllun yn dangos cymaint y gall cymunedau gyflawni gan weithio gyda'i gilydd.

BLAENAU YMLAEN (BLAENAU FORWARD)

In 2007 Blaenau Ymlaen developed a vision for the town, "to create an exciting, vibrant and attractive place to live, work and to visit, renowned for culture and the arts, our strong sense of community and the stunning environment. The town will build on these unique characteristics in a sustainable manner in order to achieve economic, social and environmental regeneration." The group have been working ever since towards achieving this goal - without their voluntary action and hours of dedication none of this would exist today. This ambitious scheme shows what communities can achieve by working together.

WALIAU SGWÂR DIFFWYS

Ceir nifer o wahanol fathau o waliau yn yr ardal ac mae rhai o'r rhain i'w gweld yng nghanol y dref. Gan gychwyn gyda'r wal o wenithfaen lleol "Craig y Tân" sydd agosaf at Gaffi'r Bont a'r wal agosaf ati o lechi wedi ei llifio o Cwt y Bugail gyda phen y wal ar steil "yr iâr a'r ceiliog." Mae'r drydedd wal ymlaen, tuag at y ffynnon, yn wal lechi ar hap o chwarel Maenofferen a'r wal olaf un yn y rhes wedi dod o chwarel Braich Ddu gyda phen y wal yn llyfn.

THE WALLS ON DIFFWYS SQUARE

A variety of walling techniques can be seen across the Vale of Ffestiniog and a small selection of these can be seen in Diffwys Square. Working away from the "Bridge Cafe" you'll see a granite wall sourced from nearby Craig y Tân Quarry, whilst the next wall on is made from sawn slate from Cwt Y Bugail with cock and hen coping. The third wall along, towards the fountain, is a random slate wall from the Maenofferen Quarry, with the last in the row sourced from Braich Ddu Quarry, with longer stones and flat copings.

CHWARELI LLECHI CYMRU

Mae Blaenau yn enwog ar draws y byd am y diwydiant llechi ac yn wir caiff ei adnabod gan lawer fel "prif ddinas llechi'r byd", bwriad y darn hwn yw dathlu pwysigrwydd y diwydiant i Gymru. Caiff dros 360 o chwareli llechi Cymru eu rhestru gydag enw pob chwarel wedi ei naddu ar lechan fyddai'n adlewyrchu lliw'r chwarel honno. Gan edrych ar enwau'r chwareli mae'n anodd dychmygu maint y diwydiant a'r hyn a olygai i Gymru ac i'r miloedd o bobl a fyddai wedi bod yn gweithio ynddynt ac a gollodd ei bywydau ynddynt. Yn ogystal â bod yn gofeb bwriad y darn yw dathlu cyfoeth yr hanes, diwylliant a'r dreftadaeth a gafwyd yn sgîl y diwydiant. Mae'r afon sy'n rhedeg drwy ganol y darn yn cyfeirio at y broses ddaearegol o greu'r llechi yn y lle cyntaf a hefyd at yr Afon Dwyryd a gludai lechi allan i'r môr cyn i'r rheilffordd gael ei adeiladu. Wedi ei naddu drwy ganol y darn mae geiriau gan y bardd lleol o Danygrisiau Gwyn Thomas, "Llifa amser yn ei flaen, A llifa dŵr: Ni lifa bywyd creigiwr. "

THE SLATE QUARRIES OF WALES

Blaenau Ffestiniog is synonymous with the slate industry of Wales, so where better to celebrate the industry than the town centre. The piece lists over 360 quarries from across Wales, with each quarry name engraved on the appropriate colour of stone for that quarry. Looking at the sea of names one can begin to imagine the magnitude of this industry and the men who worked and indeed lost their lives as a result of the slate industry. Importantly though, the piece is a celebration of an industry that gave the area history, culture and heritage like no other. The river motif running down the centre of the paving is a reminder of the geological forces that created the slate and is also a reference to the River Dwyryd that connects Blaenau to the sea along which the slates used to be exported in small boats before the Ffestiniog Railway was built. Inscribed along the river is a line by Gwyn Thomas, a famous Welsh poet from nearby Tanygrisiau, "Men die; the rocks in the empty darkness of these mountains endure. "

AROSFA BWS A'R CANOPI

Os yn dal y bws o'r orsaf, neu yn edrych draw am y Moelwynion o'r canopi, edrychwch i lawr o dan eich traed ac fel welwch waith diddorol iawn! Yn yr orsaf bws mae enwau difyr wedi ei naddu, rhain oedd yr enwau am lechi toi o wahanol feintiau a ddefnyddir yn y chwareli. Yn y canopi, fe welwch driongl mawr a "dim" yn ei ganol, dyma sut y byddai milltiroedd yn cael eu cofnodi ar hyd Reilffordd Ffestiniog ac mae'r "dim" yn nodi'r pwynt ble cychwynnai daith y llechi, o ganol y dref allan ar y môr i bellafoedd byd.

BUS SHELTERS AND VIEWING CANOPY

If you're catching the bus from the Station, or looking over the Moelwynion from the viewing canopy, look down under your feet! In the bus stops you'll find paving inscribed with the names of different sizes of roofing slates, from Narrow Ladies to Wide Viscountesses, the names were usually based upon female aristocracy. In the viewing canopy you'll find a "zero" in the middle of a triangle, this was the format for mile markers on the Ffestiniog Railway, with "zero point" being the town centre where the slates started their journey across the world.

Blaenau Ffestiniog



Blaenau Ffestiniog

o'r graig
from the rock

www.blaenauffestiniog.org/poetry
www.blaenauffestiniog.org/barddoniaeth

Blaenau ymlaen

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

ERDF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Images/Lluniau P10 & 5+: Rory Trappe; www.caeclyd.com Design/Dylunio: MwnciBach.com